# Pleidleisiwch

## Eich canllaw i bleidleisio yn 2011




Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Yn ystod 2011, caiff pobl Cymru dri chyfle i bleidleisio.

## 01–Etholiad y Cynulliad Cenedlaethol


Ym mis Mai 2011, cewch gyfle i bleidleisio dros bwy ddylai eich cynrychioli fel Aelodau Cynulliad yn eich barn chi pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal etholiad.

## 02–Y refferendwm ar bwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol

Cewch gyfle hefyd i bleidleisio a ydych yn credu y dylai San Steffan roi'r awdurdod i'r Cynulliad ddeddfu ar yr holl bynciau yn y meysydd sydd wedi'u datganoli, heb fod angen cytundeb Senedd y DU yn gyntaf.

## 03–Y refferendwm ar newid system bleidleisio'r DU

Yn ogystal, gofynnir i chi bleidleisio mewn refferendwm arall yn 2011. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cynnal refferendwm ar 5 Mai 2011 ar gyflwyno'r system pleidlais amgen ar gyfer etholiadau San Steffan. Os bydd pobl yn pleidleisio dros system newydd, fe'i defnyddir i ethol Aelodau'r Senedd i Dŷ'r Cyffredin yn ystod etholiad cyffredinol nesaf y DU.



## Pleidleisio yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol

Cynhelir etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol bob pedair blynedd, fel arfer ar ddydd Iau cyntaf mis Mai. Bydd etholiad 2011 yn rhoi'r cyfle i chi bleidleisio dros bwy ddylai eich cynrychioli yn y Cynulliad yn eich barn chi.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys 60 Aelod Cynulliad. Mae 40 ohonynt yn Aelodau Etholaethol, sy'n cynrychioli'r un etholaethau lleol ag Aelodau Seneddol San Steffan; mae'r 20 arall yn Aelodau Rhanbarth, sy'n cynrychioli un o'r pum rhanbarth yng Nghymru.

Cynrychiolir pawb yng Nghymru gan un Aelod Etholaethol a phedwar Aelod Rhanbarth.

Mae hyn yn golygu y bydd gan bawb ddwy bleidlais yn etholiad y Cynulliad yn 2011; un dros eich Aelod Etholaethol ac un dros eich Aelod Rhanbarth.

Gallwch ddod o hyd i'ch etholaeth a'ch rhanbarth, a phwy sy'n eich cynrychioli ar hyn o bryd, drwy fynd i www.cynulliadcymru.org neu drwy ffonio ein llinell wybodaeth ar 0845 010 5500.

**Diddymu**

Etholiad 2011 fydd y tro cyntaf i'r Cynulliad gael ei ddiddymu yn y cyfnod cyn etholiad. Golyga hyn y bydd y Cynulliad yn rhoi terfyn ar ei waith tua phedair wythnos cyn yr etholiad a bydd Aelodau yn peidio â bod yn Aelodau Cynulliad am y cyfnod hwnnw. Y rheswm dros hyn yw er mwyn sicrhau nad oes gan Aelodau Cynulliad presennol sy'n sefyll i gael eu hail-ethol fantais dros ymgeiswyr eraill.

## Pleidleisio yn y refferendwm

Yn ystod gwanwyn 2011, cynhelir refferendwm ynghylch sut y mae'r Cynulliad yn deddfu ar gyfer Cymru.


Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i ddeddfu ar gyfer Cymru ar rai o'r pynciau yn yr 20 maes sydd wedi'u datganoli.

Gall y Cynulliad ennill mwy o bwerau deddfu yn y meysydd hynny gyda chytundeb Senedd y DU, a hynny fesul pwnc.

Os bydd y rhan fwyaf o bobl yn pleidleisio'n gadarnhaol yn y refferendwm hwn, bydd y Cynulliad yn ennill pwerau i ddeddfu ar bob pwnc yn y meysydd sydd wedi'u datganoli heb fod angen cytundeb Senedd y DU yn gyntaf.

Os bydd y rhan fwyaf o bobl yn pleidleisio'n negyddol, bydd y trefniadau presennol yn parhau.

www.cynulliadcymru.org/pleidleisiwch2011



## Y refferendwm

Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i ddeddfu ar gyfer Cymru yn yr 20 maes sydd wedi'u datganoli a welir ar y dudalen nesaf. Gelwir y rhain yn 'feysydd'.

Mae'r meysydd hyn yn eang eu cwmpas ac fe'u rhennir yn feysydd mwy manwl (a elwir yn 'faterion') sy'n diffinio'r union feysydd y gall y Cynulliad ddeddfu ynddynt.

Felly, er enghraifft, mae'r Cynulliad ar hyn o bryd yn ystyried newid y gyfraith er mwyn lleihau'r gwastraff a'r sbwriel a gynhyrchir yng Nghymru. Mae hyn yn dod o dan y maes 'amgylchedd'.

Ym mis Mehefin 2007, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Senedd y DU drosglwyddo, i Gymru, y pŵer i ddeddfu ar y mater penodol o atal gwastraff a lleihau'r gwastraff a'r sbwriel a gynhyrchir yng Nghymru. Ar ôl i'r Cynulliad a Senedd y DU graffu ar y mater ac ar ôl cyfnod o drafod rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, cytunodd Senedd y DU ar y cais ym mis Chwefror 2010. Yn sgil hyn, roedd y Cynulliad yn gallu dechrau gwneud y ddeddfwriaeth angenrheidiol.

Bydd y refferendwm yn gofyn i bobl Cymru a ddylai San Steffan roi'r awdurdod i'r Cynulliad ddeddfu ar yr holl faterion manwl yn yr 20 maes polisi, yn hytrach na gorfod gofyn am yr awdurdod i ddeddfu ar un mater ar y tro wrth i'r Cynulliad gyflawni ei waith o ddeddfu ar gyfer Cymru.

Felly, yn yr enghraifft uchod, sef y gyfraith yn ymwneud â gwastraff a sbwriel, o dan y system newydd, byddai'r Cynulliad wedi gallu deddfu ar yr holl faterion yn y maes 'amgylchedd', heb orfod gofyn i San Steffan yn gyntaf.

Os bydd pobl yn pleidleisio'n negyddol yn y refferendwm, bydd y system bresennol yn parhau – hynny yw, caiff pwerau deddfu'r Cynulliad eu trosglwyddo bob yn dipyn, gyda chytundeb Senedd y DU bob tro.

Beth bynnag fydd y canlyniad, dim ond yn yr 20 maes dros y dudalen y bydd y Cynulliad yn gallu deddfu o hyd. Bydd y materion nas datganolwyd i Gymru, fel trethi ac amddiffyn, yn parhau gyda Llywodraeth y DU.

## Meysydd wedi'u datganoli

Gall y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar gyfer Cymru yn y meysydd a ganlyn sy'n effeithio ar eich bywyd:

01 Amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig
02 Henebion ac adeiladau hanesyddol
03 Diwylliant
04 Datblygu economaidd
05 Addysg a hyfforddiant
06 Yr amgylchedd
07 Gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch rhag tân
08 Bwyd
09 Iechyd a gwasanaethau iechyd
10 Priffyrdd a thrafnidiaeth
11 Tai
12 Llywodraeth leol
13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
14 Gweinyddiaeth gyhoeddus
15 Lles cymdeithasol
16 Chwaraeon a hamdden
17 Twristiaeth
18 Cynllunio gwlad a thref
19 Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd
20 Y Gymraeg

## Beth fyddai goblygiadau pleidlais gadarnhaol?

Byddai pleidlais gadarnhaol yn dileu'r angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU drafod pa elfennau o'r pwerau deddfu ddylai gael eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddai hefyd yn dileu'r rheidrwydd ar Aelodau Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi i graffu ar gynigion i roi'r pŵer i'r Cynulliad ddeddfu. Yn hytrach, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol fyddai penderfynu sut i ddefnyddio pwerau deddfu'r Cynulliad.

Felly, y dewis i'w wneud yn y refferendwm yw a ddylai'r Cynulliad:

– **aros fel y mae ar hyn o bryd** – ei fod yn gallu ennill pwerau i newid y gyfraith, ond bob yn dipyn, os yw Senedd y DU yn cytuno ar hynny; neu
– **symud** yn hytrach i sefyllfa lle y gall ddeddfu heb fod angen cael cymeradwyaeth Senedd y DU am y pŵer i wneud hynny yn gyntaf.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn defnyddio'ch pleidleisiau yn 2011. Yn hynny o beth, gallwch benderfynu pwy fydd yn eich cynrychioli a sut y caiff cyfreithiau ar gyfer Cymru eu gwneud. Cadwch lygad ar ein gwefan, www.cynulliadcymru.org/pleidleisiwch2011 i gael newyddion am hyn ac er mwyn nodi unrhyw ddyddiadau yn eich dyddiadur.

www.cynulliadcymru.org
gwybodaeth@cynulliadcymru.org
archebu@cynulliadcymru.org
Ff 0845 010 5500

Cymerwch ran ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.